NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Hydref 25:
Y Parchg, Gethin Rhys
Llywydd: Wyn Rees
Taflen: Emlyn Davies

Tachwedd 1:
Y Parchg. Allan R. Pickard
Llywydd: Margaret P. Copley
Taflen: Nia Williams

Tachwedd 8:
Y Parchg. Aled Edwards
Llywydd: Bethan Herbert
Taflen: Emlyn Davies

CASGLIAD BWYD A DILLAD

Bydd y casgliadau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn parhau tra bo'r capel yn cael ei atgyweirio a bydd y bocs casglu yng nghefn Neuadd y Pentref bob bore Sul. Maen nhw'n gofyn hefyd am focsys wyau gwag. Bydd y casgliad dillad yn ail-ddechrau yn y flwyddyn newydd.

ELUSENNAU 2016

Pwy ddylai dderbyn ein harian elusen yn 2016? Mae'n amser penderfynu, ac mae eich barn chi'n bwysig. Dyma'r arian a gesglir yn yr amlenni bach brown ar gyfer elusennau lleol. Dewch â'ch syniadau i **John,** johnllewt@hotmail.com 01443 218077 neu **Ann,** 0292 0891 344 ann.pentyrch@btinternet.com cyn diwedd y mis.

MERCHED Y TABERNACL

Bore Gwener, Tachwedd13eg

Cwrdd am goffi yn yr Amgueddfa am 10.30 ac yna am 11 byddwn yn cael eglurhad ar rai o'r peintiadau yng nghwmni Ann Saer

Croeso i bawb

CYFARFOD CYFFREDINOL

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fore Sul, Tachwedd 22ain, yn dilyn yr oedfa.

ENWEBU CYFARWYDDWYR

Daeth yn amser unwaith eto i enwebu aelodau newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Y dyddiad cau yw dydd Sul, Tachwedd 8fed, ac mae'r ffurflenni ar gael gan Gwilym Huws, yr Ysgrifennydd..

TAFOD Y TAB
Y DAFLEN, A'R SGRINIAU

Rydym yn chwilio am olygydd i'r rhifyn nesaf o ***Tafod y Tab*** sydd i fod i weld golau dydd yn gynnar ym mis Ionawr.
Os ydych yn fodlon bod yn gyfrifol amdano y tro hwn, siaradwch gyda Lowri Roberts neu Emlyn Davies.
Hefyd, rydym wirioneddol angen rhagor o bobl i helpu gyda'r daflen a'r sgriniau.

Os medrwch helpu, mynnwch air gydag Emlyn Davies ar 02920 891344 neu emlyn.davies@which.net

Y FFOADURIAID

Dylai pawb fod wedi derbyn amlen ar gyfer y casgliad arbennig gan Cymorth Cristnogol i helpu ffoaduriaid yn Ewrop a'r Dwyrain Canol. Os na chawsoch amlen eisoes, mynnwch un heddiw gan John Llew neu Ann Davies.

Byddwn yn eu casglu dros yr wythnosau nesaf er mwyn i'n cefnogaeth ni fedru dechrau'n ddi-oed.

Dydd Sul Nesaf Hydref 25ain

Yn y Ganolfan y byddwn ni y Sul neaf, ac **NID** yma yn Neuadd y Pentref. Byddwn yn dychwelyd i Neuadd y Pentref y Sul wedyn.

Y TWMIAID BACH

Cofiwch am y Twmiaid Bach, i blant blwyddyn 5 ac uwch, bob yn ail nos Sul am 5 o'r gloch yn Y Ganolfan. Bydd y cyfarfodydd nesaf ar Dachwedd 1, 15 a 29, ac wedyn ar Ragfyr 13.